

Cyfarwyddiadau Atodlen 14

Mae unrhyw un sydd wedi gwneud cais i'r awdurdod priffyrdd lleol am addasiad i fap a datganiad diffiniol yr ardal, ac sydd heb gael gwybod am benderfyniad yr awdurdod o fewn 12 mis¹, yn gallu gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfarwyddyd. Mae Gweinidogion Cymru'n gallu cyfarwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais erbyn dyddiad penodol. Nid oes ffurflen gais ffurfiol.

Caiff y 12 mis ei gyfrifo o'r dyddiad y mae'r awdurdod yn derbyn y dystysgrif gan yr ymgeisydd yn dangos y cydymffurfiwyd â gofynion Atodlen 14 paragraff 2 y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad.

Mae Gweinidogion Cymru yn cymryd nifer o faterion i ystyriaeth wrth ystyried sut i ymateb i geisiadau o'r fath ac a ddylid cyfarwyddo awdurdod i benderfynu ar gais am orchymyn o fewn cyfnod penodol. Mae'r materion hyn yn cynnwys unrhyw ddatganiad a wneir gan yr awdurdod yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer diweddarau a chynnal y map diffiniol; pa mor rhesymol yw blaenoriaethau o'r fath; unrhyw gamau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd neu y mynegwyd bwriad i'w cymryd neu gamau pellach ar y cais o dan sylw; amgylchiadau'r achos, ac unrhyw farn a fynegir gan yr ymgeisydd.

Caiff y penderfyniad ei wneud yn dilyn asesiad gweinyddol o'r achosion ysgrifenedig a gyflwynir gan yr ymgeisydd a'r awdurdod priffyrdd.

Bydd pob penderfyniad a wnaed ar ôl 05 Awst 2022 ar gael ar-lein yma [Gwaith Achos \(gov.wales\)](https://gov.wales)

Canllawiau diwygiedig Awst 2022

¹ Ni ellir gwneud cais am gyfarwyddyd os yw'r awdurdod wedi barnu bod y cais yn annilys. Mae Atodlen 14(1) Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 yn gosod allan y ffurflen a'r hysbysiad ar gyfer ceisiadau. Mae Atodlen 7 Rheoliadau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (Mapiau a Datganiadau Diffiniol) 1993 SI 1993 Rhif 12 yn cyfeirio hefyd.